

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Vale Laser Ltd

Dyddiad arolygu: 30 Ebrill 2019

Dyddiad cyhoeddi: 31 Gorffennaf
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?.....	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	21
	Atodiad B – Cynllun gwella	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Vale Laser Ltd ar 30 Ebrill 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod Vale Laser Ltd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd glân, taclus a phleserus.

Roedd gan y rheolwr cofrestredig amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch ac urddas y cleifion a'r staff. Gwelsom hefyd fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i drafod opsiynau triniaeth â chleifion ac i gael cydsyniad cyn rhoi triniaeth.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd prosesau ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.
- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i'r cleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid diweddararu'r canllaw i gleifion a dylai fod ar gael ar y wefan ynghyd â'r datganiad o ddiben.
- Dylai'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant diogelu priodol.
- Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth feddygol ar waith ar gyfer peiriant ePulse Energist.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Vale Laser Ltd wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o driniaethau annibynnol, cosmetig yn bennaf.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 09 Chwefror 2015 ac mae'n cyflogi un gweithredwr laser, sef y rheolwr cofrestredig.

Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 oed:

Laser MedArt Varimed 435 Energist

- Gwaredu gwallt
- Triniaeth pigmentiad
- Gwythiennau edau
- Acne

System ePulse Energist

- Gwaredu gwallt

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir a bod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl triniaeth er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 14 ohonynt.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn 'ardderchog'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth proffesiynol iawn ond yn gwneud i mi deimlo'n gwbl gyfforddus ar yr un pryd"

"Roedd y clinig yn wybodus ac yn gymwynasgar. Roedd y staff yn barod i helpu ac yn gwrando ar fy adborth wrth weithio ar rannau sensitif o fy wyneb"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Cawsom wybod bod y cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol. Mae'n rhaid iddynt hefyd lofnodi ffurflen cyn pob triniaeth ddilynol i gadarnhau a yw eu hanes meddygol wedi newid o gwbl er mwyn helpu i sicrhau y darperir triniaeth mewn modd diogel.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd pob claf

ond un a gwblhaodd holiadur eu bod wedi llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun wedi cadarnhau eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gallai'r cleifion newid yn yr ystafell driniaeth a bod sgriniau ar gael er mwyn rhoi lefelau addas o breifatrwydd. Roedd ymgynoriadau â'r cleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellid datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i unrhyw un arall glywed.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod croeso i hebryngwyr ddod gyda chleifion ac y gallant aros yn yr ystafell driniaeth drwy gydol y driniaeth.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser. Mae'r drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Roedd y cleifion yn cael eu cyfeirio i'r wefan hefyd lle roedd gwybodaeth ysgrifenedig am eu triniaeth laser ar gael.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Yn ogystal, dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym eu bod bob amser yn cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Lle y bo'n gymwys, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth newydd a dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal heintiau a chynorthwyo'r broses wella ar ôl eu triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben¹ manwl i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nid oedd canllaw i gleifion² ar gael ar-lein nac yn yr ardaloedd aros, a gwnaethom gynghori y dylai'r cleifion allu cael gafael arno'n hawdd. Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion fel ei fod yn cynnwys manylion am sut y gall cleifion roi adborth i'r gwasanaeth a chrynodeb o farn y cleifion. Gan fod gwefan gan y gwasanaeth, rydym yn argymhell y dylai'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion fod ar gael i'r cleifion ar y wefan.

Gwnaethom sylwi bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion wedi cael eu hadolygu yn 2018, ond nid oedd dyddiad perthnasol ar gyfer yr adolygiad nesaf yn y dogfennau hyn. Gwnaethom gynghori y dylai'r ddwy ddogfen gynnwys dyddiadau adolygu.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd fod y staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ar gael i'r cleifion ar y wefan.

¹ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

² Mae canllaw i gleifion yn ofynnol i roi gwybod i'r cleifion am wybodaeth hanfodol sy'n ymwneud â gwasanaeth, megis sut i gael mynediad at wasanaethau, rhoi adborth a gwneud cwyn.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod rhaid i gleifion gytuno i gael prawf clytiau cyn cael triniaeth er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Lle y bo'n briodol, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael prawf clytiau cyn iddynt gael triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau da ar gyfer cadw cofnodion yn y gwasanaeth, gan gynnwys nodiadau cyflawn am y cleifion a chofrestr gynhwysfawr o driniaethau'r cleifion³.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r gwasanaeth mewn clinig preifat ac wedi'i leoli ar y llawr cyntaf. Nid yw'r gwasanaeth yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y gwasanaeth system ar waith i geisio adborth gan y cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd holiaduron ar gael ac anogwyd y cleifion i gwblhau adolygiad am eu profiad drwy wefan neu dudalen Facebook y gwasanaeth hefyd. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i arddangos canlyniadau o'r holiaduron ac adolygiadau ar-lein er mwyn dangos i'r cleifion ei bod yn gwrando ar eu hadborth a'i fod yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth.

Dywedodd ychydig llai na thraean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn ceisio eu barn am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Efallai yr hoffai'r practis ystyried sut i sicrhau bod y wybodaeth hon yn glir ac ar gael i'r cleifion.

³ Mae cofrestr triniaethau yn gofnod cynhwysfawr o bob triniaeth yr ymgwymerwyd â hi ar gyfer pob peiriant er mwyn cofnodi manylion am sut a phryd y defnyddiwyd y peiriant ac unrhyw effeithiau andwyol sydd wedi cael eu nodi naill ai yn ystod neu'n syth ar ôl y driniaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd yr ystafell driniaeth yn cynnwys yr offer priodol ac yn amlwg yn lân ac yn daclus iawn.

Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod protocolau triniaeth feddygol priodol a chyfredol ar waith ar gyfer y peiriant ePulse Energist.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a phobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriad wedi'i gynnal ar y gwifrau trydanol yn yr adeilad o fewn y pum mlynedd diwethaf a bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal i sicrhau bod yr offer yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel ac addas.

Roedd y gwasanaeth yn rhannu adeilad â nifer o fusnesau eraill, gyda goruchwyliaeth gan reolwr yr adeilad. Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â diogelwch tân yn yr adeilad. Gwelsom fod yr holl fusnesau yn yr adeilad wedi cytuno ar y polisi tân; roedd ar gael yn hawdd yn y dderbynfa a gwelsom fod yr holl staff yn y clinig yn ymwybodol o'r polisi hwn. Fodd bynnag, gwelsom fod dyddiad gwasanaethu'r diffoddwyr tân wedi mynd heibio. Cawsom dystiolaeth ar y diwrnod fod y gwasanaeth wedi trefnu iddynt gael eu gwasanaethu'r wythnos ganlynol. Gwelsom hefyd fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth ar y diwrnod bod

hyfforddiant tân yn cael ei ddarparu i'r staff. Rydym felly'n argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant i sicrhau ei diogelwch ei hun a'i chleifion yn y gwasanaeth.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael yn y clinig ehangach ond, wrth archwilio, gwelsom fod llawer o'r eitemau wedi darfod. Gwnaethom argymhell y dylai'r gwasanaeth sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf cyflawn a chyfredol ar gael bob amser. Gwelsom hefyd nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, a gwnaethom argymhell y dylai wneud hyn er mwyn sicrhau y gallai ymdrin ag anafiadau iddi hi ei hun neu i'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant diogelwch tân.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf priodol ar gael bob amser.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn y gwasanaeth a oedd yn gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi rheoli heintiau. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith hefyd.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i bobl dros 18 oed, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn. Cawsom wybod na chaniateir i unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion sy'n cael triniaeth fynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth.

Gwelsom nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant diogelu ers cofrestru gydag AGIC gyntaf yn 2014. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant priodol o ran amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod ei gwybodaeth am ddiogelu yn gyfredol.

Gwelsom fod polisi ar gyfer diogelu oedolion ar waith, ond nid oedd yn cynnwys gweithdrefnau penodol i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Gwnaethom argymhell y dylai'r polisi diogelu gael ei ddiweddarau i

gynnwys manylion am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai pryder ynghylch diogelu, a manylion y cysylltiadau diogelu lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant diogelu priodol.

Dylid diweddarau'r polisi diogelu i gynnwys manylion y gweithdrefnau i'w dilyn, ynghyd â manylion yr awdurdodau diogelu lleol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth fod peiriant laser MedArt Varimed 435 Energist a System ePulse Energist wedi'u gwasanaethu a'u calibradu⁴ yn rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod protocol triniaeth feddygol ar waith ar gyfer defnyddio peiriant laser MedArt Varimed 435 Energist yn ddiogel. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, ni welsom dystiolaeth fod protocol wedi'i ddiweddarau ar gyfer peiriant System ePulse Energist. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth feddygol priodol ar waith ar gyfer y ddau beiriant laser. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y protocolau triniaeth feddygol yn cael eu llunio gan ymarferydd meddygol arbenigol addas.

Gwelsom fod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau⁵ a bod cyfres o reolau lleol⁶ ar waith a oedd yn manylu ar sut i weithredu'r peiriant laser yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd

⁴ Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

⁵ Mae'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'i gontractio i bractis er mwyn pennu'r rheolaethau a'r gweithdrefnau diogelwch sy'n angenrheidiol ac, wrth ddarparu hyfforddiant diogelwch i'r staff, nodi pa wybodaeth ychwanegol ac arbenigol fydd ei hangen.

⁶ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

Diogelu rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig hefyd, sy'n dangos ei bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'i bod wedi cytuno i'w dilyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocol triniaeth feddygol priodol ar waith ar gyfer y peiriant ePulse Energist.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser drwy'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod sbectolau amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a gweithredwr y laser, gyda digon dros ben ar gyfer unrhyw hebryngwyr. Roedd yn amlwg bod y sbectolau amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau yn cael eu harchwilio'n ddyddiol i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses yn fanwl. Rhoddir arwydd ar ddrws yr ystafell driniaeth i rybuddio bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cawsom wybod bod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser drwy dynnu'r allwedd hono a'u cadw dan glo mewn ardal ar wahân i'r peiriannau. Caiff yr allwedd ar gyfer ardal storio'r allwedd eu symud o'r gwasanaeth bob dydd.

Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth sydd ar waith mewn perthynas ag asesiadau risg amrywiol a gynhaliwyd gan y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg diweddar lle cadarnhawyd nad oedd angen unrhyw welliannau na newidiadau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig yn cyfarfod yn rheolaidd â gweithredwr laser arall a oedd yn gweithredu o'r un clinig preifat, a'u bod yn cynnal adolygiadau parhaus gan gymheiriaid. Roedd hyn yn galluogi'r ddau weithredwr i drafod achosion, darparu amgylchedd ar gyfer datrys problemau a llywio gweithgareddau gwella ansawdd.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion cleifion ar bapur yn cael eu cadw dan glo mewn cabinet yn yr ystafell driniaeth, ac roedd y rheolwr cofrestredig yn mynd ag allwedd i'r cabinet gyda hi bob nos.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth bod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel, gan ddangos bod diogelwch a llesiant cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gofal.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael yr hyfforddiant priodol ac roedd ganddi'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ac roeddent i gyd yn cael eu diweddarau'n flynyddol.

Roedd gweithdrefn cwynion gynhwysfawr ar waith i sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Vale Laser Ltd ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd a hi yw'r unig weithredwr laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'i fod yn hawdd cael gafael arnynt.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â gofynion rheoliadol. Mae crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon sy'n dod i law.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriant laser, wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁷ yn ystod y pum mlynedd diwethaf ynghyd â hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Er mwyn sicrhau bod gweithredwr y peiriant laser yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, ac i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus, rydym yn cynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob tair blynedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

⁷ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Vale Laser Ltd

Dyddiad arolygu: 30 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ar gael i'r cleifion ar y wefan	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Wedi'i lanlwytho i'r wefan heddiw.	Mandy Davies	04/07/2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau	22. Rheoli risg ac iechyd a	Mae pecyn cymorth cyntaf yn yr ystafell	Mandy Davies	04/07/2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hyfforddiant diogelwch tân. Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf priodol ar gael bob amser.	diogelwch	glinig. Mae SANDS yn trefnu hyfforddiant tân gyda'r archwiliad tân nesaf.		
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant diogelu priodol. Dylid diweddarau'r polisi diogelu i gynnwys manylion y gweithdrefnau i'w dilyn, ynghyd â manylion yr awdurdodau diogelu lleol.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Wedi diweddarau'r polisi.	Mandy Davies	04/07/2019
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth feddygol priodol ar waith ar gyfer y peiriant ePulse Energist.	16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	Wedi gwneud.	Mandy Davies	04/07/2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mandy Davies

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 04/07/2019